# Cofnodion

| | |
|---|---|
| **Teitl y cyfarfod:** | Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru (WLMF) ar Lygredd Amaethyddol |
| **Lleoliad:** | Cyfarfod Microsoft Teams |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 21 Hydref 2024 |
| **Aelodau yn bresennol:** | Yr Athro Rhys A. Jones, Aelod Bwrdd CNC (Cadeirydd)<br>Dennis Matheson, TFA<br>Sarah Jones, Dŵr Cymru Welsh Water<br>Sarah Hetherington, CNC<br>David Ball, AHDB<br>Nichola Salter, CNC<br>Gail Davies-Walsh, Afonydd Cymru<br>Einir Williams, Cyswllt Ffermio<br>Creighton Harvey, CFF<br>Matt Walters, Llywodraeth Cymru<br>Andrew Chambers, Llywodraeth Cymru<br>Chris Thomas, CNC<br>Jon Goldsworthy, CNC<br>Betsan John, Llywodraeth Cymru<br>Fraser McAuley, CLA<br>Gareth Parry, UAC<br>Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru<br>Marc Williams, CNC<br>Ruth Johnston, CNC<br>Delyth Lewis-Jones, AHDB<br>Lowri Mair Thomas, HCC |
| **Mynychwyr ychwanegol:** | Nicola Mills, NRW<br>Iwan Williams, NRW<br>Dr Susannah Bolton |
| **Ymddiheuriadau:** | Chris Mills, Afonydd Cymru<br>Michelle Griffiths, CNC |
| **Ysgrifenyddiaeth:** | Bronwen Martin, CNC |

## Eitem 1. Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a datganiadau o ddiddordeb

1. Croesawodd yr Athro Rhys A. Jones (Aelod Bwrdd CNC a Chadeirydd Is-Grŵp WLMF) bawb i gyfarfod Microsoft Teams a nododd yr ymddiheuriadau.

2. *Mae'r cyfarfod yn cael ei recordio er mwyn nodi'r cofnodion a bydd y ffeil ddigidol yn cael ei dileu unwaith y bydd cofnodion y cyfarfod wedi cael eu cymeradwyo.*

3. Ni fynegwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb mewn perthynas ag eitemau agenda.

- DS: Mae holl aelodau'r grŵp wedi llenwi ffurflenni datganiadau o ddiddordeb eisoes ond dylent hefyd ddatgan os oes ganddynt fuddiant mewn unrhyw beth ar yr agenda.

## Eitem 2. Adolygiad o’r cofnodion a chamau gweithredu

4. Cadarnhaodd Rhys unwaith y bydd cofnodion y cyfarfod wedi cael eu hadolygu a'u cytuno'n ffurfiol gan y grŵp, y byddant yn cael eu cyhoeddi ar wefan CNC er mwyn i'r cyhoedd gael mynediad atynt. Felly, mae'n bwysig bod y cofnodion yn rhoi cofnod cywir o'r cyfarfodydd.
5. Adolygodd y grŵp y cofnodion blaenorol o'r cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 17 Mehefin 2024 ac 16 Medi – derbyniwyd y ddau fel cofnodion gwir.
6. Rhannodd Bronwen y camau gweithredu sydd heb eu cyflawni a rhoddwyd diweddariadau llafar lle bo’n bosibl.
7. Trafododd y grŵp y gwaith amrywiol sy’n mynd rhagddo ar hyn o bryd o fewn y gofod ansawdd dŵr a chydnabod yr angen i bethau gael eu cydgysylltu er mwyn osgoi dyblygu.
8. Atgoffwyd y grŵp fod yr Ymgynghoriad Gweithio Gyda'n Gilydd yn fyw ac yn cau ar 20 Rhagfyr 2024 – anogwyd aelodau i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad a'i rannu â'u rhwydweithiau.

## Eitem 3. Diweddariad Tîm CoAPR CNC

9. Ymunodd Nicola Mills, CNC â'r cyfarfod i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd Tîm Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol CNC (CoAPR). Rhannwyd copi o Adroddiad Cryno CoAPR ar gyfer Llywodraeth Cymru (yn cwmpasu'r cyfnod rhwng Tachwedd 2023 a Mehefin 2024) gyda'r grŵp cyn y cyfarfod.
10. Roedd cyflwyniad Nicola yn ymdrin â rhai canfyddiadau hyd yma, gan gynnwys:

- Nifer yr arolygiadau fferm yn ôl maint
- Prif weithgaredd busnes ffermio’r ffermydd a arolygwyd
- Statws cydymffurfio busnesau ffermio a arolygwyd.
- Diffyg cydymffurfiaeth ar ffermydd adeg arolygiad cyntaf CoAPR
- Arolygiadau fferm yn ôl statws clefydau anifeiliaid a pherchnogaeth
- Achosion o ddiffyg cydymffurfio gyda mesurau casglu slyri a statws mesurau storio slyri
- Ymgynghoriadau cynllunio a rhaghysbysiadau
- Heriau ac adborth

11. Dechreuodd y rhaglen arolygu ym mis Tachwedd 2023 ac mae adroddiad wedi'i lunio ar gyfer arolygiadau cychwynnol. Ar 30 Mehefin 2024, archwiliwyd cyfanswm o 372 o ffermydd. Cynhaliwyd arolygiadau ar draws ystod o ffermydd o wahanol feintiau lle credir bod gweithgareddau risg uwch yn cael eu cynnal ac roedd hyn yn cynnwys amrywiaeth o feintiau ffermydd a gweithgareddau busnes. Soniodd Nichola nad oedd 213 o’r 372 o ffermydd a arolygwyd yn cydymffurfio â'r rheoliadau, a fod angen iddynt

gwblhau camau gweithredu ar y fferm er mwyn cydymffurfio. Roedd 136 o ffermydd yn cydymffurfio heb ymyrraeth ac yn cydymffurfio'n llawn â'r rheoliadau, sy'n ffigur eithaf iach a llwyddodd 23 fferm i gydymffurfio ar ôl ymyrraeth.

12. Dywedodd Dennis Matheson, TFA ei bod yn dda o beth fod Ysgrifennydd y Cabinet wedi cymryd agwedd synhwyrol o ran tywydd gwlyb a storio ac ati. Fodd bynnag, nid yw cael storfeydd slyri mwy yn datrys y broblem, dim ond ei gohirio. Soniodd Dennis am achos Fferm Cyngor Sir lle'r oedd storfa slyri newydd wedicael ei gosod ond ei bod wedi cymryd 4 blynedd o'r adeg y cysylltodd y TFA gyntaf hyd at yr adeg y gosodwyd y storfa ac yr oedd hi’n cydymffurfio â'r rheoliadau. Mae TFA hefyd yn falch iawn bod Ysgrifennydd y Cabinet o'r diwedd yn cymryd diddordeb mewn sicrhau bod trawsgydymffurfiad RPW yn fwy cydnaws â CNC ynghylch y rheoliadau. Diolchodd Dennis i Nicola am yr ystadegau defnyddiol ar ffermydd tenant a arolygwyd.

13. Gofynnodd Gareth Parry, FUW am eglurder gan CNC ynglŷn â'r broses arolygu a soniodd fod ffermwr wedi dweud wrtho yn ddiweddar ei fod wedi derbyn galwadau ffôn gan Swyddog CNC yn hwyr yn y nos. Dywedodd Nicola nad oedd hi'n gefnogol i alwadau ffôn hwyr yn y nos ac roedd ganddi ddiddordeb mawr mewn gwybod mwy am y sefyllfa er mwyn gallu edrych i mewn i’r mater.

***Pwynt Gweithredu 21 Hydref 01: Gareth Parry i ddarparu mwy o wybodaeth am y ffermwr sy'n derbyn galwadau ffôn hwyr yn y nos gan Swyddogion CNC fel y gall Nicola Mills, CNC edrych i mewn i’r mater.***

14. O ran y broses arolygu, eglurodd Nicola fod ffermwyr yn cael mis o rybudd ac yn cael llythyr i’w hysbysu. Mae'r llythyr yn cynnwys manylion cyswllt iddynt gysylltu â CNC ac yn eu hannog i gael sgwrs gychwynnol gyda'r Swyddog arolygu cyn yr ymweliad. Bydd ffermwyr yn derbyn llythyr ar ôl ymweld gan CNC yn cadarnhau unrhyw ddiffyg cydymffurfio a fydd hefyd wedi cael ei drafod ar ddiwrnod yr archwiliad, felly nid oes unrhyw bethau annisgwyl. Mae'r gwiriad terfynol ar y Cynlluniau Rheoli Nitradau (NMP) yn weithgaredd bwrdd gwaith. Bydd swyddogion yn edrych arnynt ar y diwrnod, ond gan fod llawer o wybodaeth, mae'n cael ei wneud fel gweithgaredd mewn swyddfa. O ganlyniad, ni allwn gadarnhau ar y diwrnod ynghylch agweddau gwaith papur nes y byddwn wedi gwneud y gwiriad terfynol hwnnw. Gan ddibynnu ar beth y byddwn wedi ei ganfod ac a oes angen cynllun gweithredu ai peidio, rhoddir un mis i'r ffermwr gysylltu â ni gyda manylion am sut y mae’n bwriadu sicrhau fod y fferm honno yn cydymffurfio. Ni ddylai Swyddogion CNC gysylltu tan ddiwedd y cyfnod hwnnw pan fydd yn bosibl y byddant yn ffonio neu’n anfon e-bost at y ffermwr i’w atgoffa (os nad ydynt eisoes wedi clywed ganddo). Os yw'r ffermwr wedi penderfynu peidio â chymryd rhan ar ôl i’r amser ddod i ben, yna efallai y bydd rhai pryderon eraill megis materion iechyd meddwl neu heriau eraill. Pwysleisiodd Nichola pa mor bwysig oedd bod ffermwyr yn siarad ag arolygwyr os oes ganddynt unrhyw bryderon, hyd yn oed os mai e-bost sgwrs gyflym yw dweud eu bod yn gweithio ar bethau, neu efallai eu bod yn aros i gontractwr ddychwelyd atynt, neu eu bod wedi cysylltu ag ymgynghorydd i wneud yr NMP ac ati. Mae'n allweddol i ryw fath o dystiolaeth gael ei darparu sy'n dangos eu bod yn rhagweithiol ac yn gweithio ar eu cynllun gweithredu. Cydnabu Nichola y gallai rhai Swyddogion aros tan ar ôl amser godro i ffonio oherwydd efallai mai dyna'r amser mwyaf tebygol, i gael gafael ar y ffermwr, ond nid yw galwadau ffôn hwyr gyda’r nos yn cael eu cefnogi.

15. Gofynnodd Gareth i Lywodraeth Cymru am y safonau trawsgydymffurfio diwygiedig y mae modd eu cadarnhau. Dywedodd Andrew Chambers, Llywodraeth Cymru fod RPW

yn mynd i ryddhau gwybodaeth am y dull newidiol ar ddiwedd y mis ac nad oedd am achub y blaen ar y cyhoeddiad. Cytunodd Andrew i fynd â'r pwyntiau hyn yn ôl i RPW fel y gallant ystyried hynny wrth gyfathrebu.

***Pwynt Gweithredu 21 Hydref 02: Andrew Chambers, Llywodraeth Cymru i roi adborth o'r sylwadau a wnaed gan Gareth Parry, UAC i RPW ynghylch y safonau trawsgydymffurfio diwygiedig y mae modd eu cadarnhau.***

16. Gofynnodd David Ball am eglurhad ynglŷn â'r diffyg cydymffurfio mwyaf cyffredin ac awgrymodd fod anghysondeb rhwng y ffigurau a rannwyd. Eglurodd Nicola fod 127 o fesurau storio silwair wedi'u haddasu er mwyn cydymffurfio. Y tri diffyg cydymffurfio mwyaf cyffredin ar ffermydd oedd mesurau storio silwair, rheoli slyri a Chynlluniau Rheoli Nitrogen. Trafododd David Storio Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol (SSAFO) a'r Rheoliadau newydd. Atgoffodd Nichola y grŵp fod yr wybodaeth a rennir heddiw hyd at fis Mehefin 2024 (e.e. roedd SSAFO yn dal i fod ar waith).
17. Roedd Creighton Harvey, CFF yn cofio'r cyflwyniad a roddodd Nichola ar 9 Mai 2024, lle soniwyd bod tua 100 o ffermydd wedi cael eu hychwanegu at y rhestr risg uchel oherwydd digwyddiadau llygredd ar y ffermydd hynny. Ar y pryd, gofynnodd Creighton am ddadansoddiad o leoliadau'r ffermydd hynny ac ychwanegwyd nodyn ar ôl y cyfarfod at gofnodion y cyfarfod - Cyfoeth Naturiol Cymru: Cofnodion Cyfarfod Is-Grŵp WLMF - 20 Mai 2024. Gofynnodd Creighton faint o ffermydd sydd wedi cael eu hychwanegu at y rhestr risg uchel ers mis Mawrth. Dywedodd Nichola nad oedd ganddi'r ffigyraurau diweddaraf, ond ar gyfer ardal y de, efallai bod 35 fferm arall wedi cael eu hamlygu gan y Timau Amgylchedd ers diwedd mis Mawrth. Fodd bynnag, dywedodd Nichola eto fod mwyafrif y ffermydd sy'n cael eu cyfeirio o Dimau'r Amgylchedd yn dilyn digwyddiadau llygredd neu wasgaru y tu allan i'r cyfnod caeedig ac ati, eisoes ar y rhestr gweithgaredd risg uchel. Felly, nid yw o reidrwydd yn creu mwy o waith neu fwy o ymweliadau gan eu bod eisoes ar y rhestr. Mae'n ymwneud yn fwy â gwerthuso'r risg sy'n weddill ac yna asesu a ydym yn rhoi hynny ymlaen ar gyfer ymweliad.??
18. Dywedodd Creighton ein bod mewn cyfnod sensitif iawn ar hyn o bryd yn enwedig gan fod cyrff amrywiol yn edrych ar y diwydiant mewn perthynas â chydymffurfio â Rheoliadau 2021. O ran Afonydd Cymru, mae dosbarthiad daearyddol yn gwestiwn a fydd yn parhau. Gofynnodd Creighton, bob tro y bydd Nicola yn darparu diweddariadau yn y dyfodol, y dylai gynnwys gwybodaeth am ddosbarthiad daearyddol.
19. Gofynnodd Creighton am eglurhad a gofynnodd a oedd y 100 fferm a ychwanegwyd at y rhestr yn ychwanegol at y rhai a oedd eisoes ar y rhestr safonol o ffermydd risg uchel i'w harchwilio. Dywedodd Nicola nad oeddent, roedd yr amcangyfrif o 100 o ffermydd yn atgyfeiriadau gan Dîm yr Amgylchedd oherwydd hysbysiadau am ddigwyddiadau llygredd a risgiau dilynol. Byddai llawer o'r rhain eisoes wedi bod ar restr y Tîm Rheoli Llygredd Amaethyddol gan eu bod yn dod o dan y categori gweithgaredd risg uchel. Gofynnodd Creighton, mewn diweddariadau yn y dyfodol, fod Nicola hefyd yn cynnwys gwybodaeth am faint o ffermydd ychwanegol oedd yn cael eu hychwanegu mewn gwirionedd at y rhestr nad oeddent eisoes ar restr risg uchel Tîm Rheoli Llygredd Amaethyddol.
20. Soniodd Nichola Salter, CNC fod CNC wedi cael ei holi yn flaenorol am gyhoeddi map o'r achosion o ddiffyg cydymffurfio, fodd bynnag, gwnaethom y penderfyniad i beidio â gwneud hynny gan nad oeddem eisiau i ffermydd unigol gael eu hadnabod yn hawdd a rhoi straen ychwanegol ar ffermwyr. Rydym wedi arolygu nifer gymharol isel o ffermydd

hyd yma, a fyddai'n debygol o ganiatáu i ffermydd unigol gael eu hadnabod (e.e. torri GDPR). Fodd bynnag, unwaith y byddwn wedi cynnal adroddiad llawnach ar ddiwedd y 12 mis cyntaf, efallai y byddwn yn ailystyried cyhoeddi map, ond mae'n hanfodol iawn nad oes modd adnabod ffermydd unigol o fewn unrhyw wybodaeth gyhoeddedig. Rydym yn poeni am les meddyliol ffermwyr ac mae ein perthynas weithio gyda nhw yn bwysig iawn i'w sicrhau eu bod yn cydymffurfio. Dywedodd Creighton nad oes rhaid cyhoeddi gwybodaeth mewn ffordd y gellir adnabod ffermydd unigol, efallai y gall CNC ddarparu'r data hwnnw fesul sir.

21. Soniodd Rachel Lewis-Davies, NFU am gyfraith GDPR ac atgoffodd y grŵp y dylai diogelu hunaniaeth y ffermwr fod yn flaenoriaeth uchel. Diolchodd Rachel i CNC am yr adroddiad a dywedodd ei bod yn hanfodol iawn cefnogi aelodau NFU Cymru gyda'r rheoliadau.

22. Gofynnodd Rachel am eglurhad o'r broses ar gyfer rhoi gwybod am yr archwiliad gan ei bod wedi clywed am achosion o Swyddogion CNC yn ymddangos ar fuarth y fferm i ddweud wrth y ffermwr ei fod yn mynd i gael ei archwilio. Dywedodd Nicola mai'r drefn yw bod pob fferm yn cael pedair wythnos o rybudd ar gyfer yr ymweliad. Yn eithaf aml, bydd y ffermwr yn ffonio CNC ymlaen llaw neu'n anfon e-bost i ddweud bod hynny'n iawn. Os na fyddwn yn clywed gan y ffermwr, yna dylai Swyddogion fynd draw ar y diwrnod ar adeg yr apwyntiad. Doedd Nicola ddim yn ymwybodol o unrhyw un oedd yn mynd i'r fferm cyn yr ymweliad, ond gallai rhai Swyddogion alw heibio os ydyn nhw yn yr ardal. Gofynnodd Nicola i Rachel ddarparu manylion os oes fferm benodol wedi cael rhywun yn dod draw cyn yr ymweliad gan nad dyna'r drefn arferol.

***Pwynt Gweithredu 03 Hydref 06: Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru i roi mwy o wybodaeth am swyddogion sy'n mynd i ffermydd cyn ymweliadau fel y gall Nicola Mills, CNC edrych i'r mater.***

23. Roedd Rachel yn cofio rhai o'r ffigurau ar gyfer diffyg cydymffurfio, yn enwedig storfeydd silwair.  Mae hwn yn faes cymhleth iawn (e.e. draeniau perimedr wedi'u claddu), felly mae'n anodd iawn i ffermwyr ddangos neu fynd i'r afael ag unrhyw faterion a amheuir hyn ôl-weithredol. Gofynnodd Rachel a yw Swyddogion CNC yn deall hynny. Dywedodd Nicola fod hwn yn faes sy'n peri pryder a disgrifiodd y mathau o bethau a welwyd ar ffermydd. Gofynnwn i ffermwyr ddangos, os gallant, fod pethau yn eu lle fel draeniau perimedr ac ati. Gallwn hefyd awgrymu eu bod yn cael ymweliad isadeiledd fferm am gyngor ychwanegol, neu'n ystyried opsiynau eraill fel symud i silwair wedi'i fyrnu, defnyddio tomenni caeau ac ati. Fodd bynnag, mae pob achos yn unigryw, ac mae'n ddyletswydd arnom i roi gwybod i ffermwyr a ydynt yn cydymffurfio ai peidio. Y cam nesaf yw i'r ffermwr ddarparu tystiolaeth, efallai o weithio gyda chontractwr neu o bosibl darparu ffilm fideo o ddraeniau. Rydym yn ceisio cynnig cymaint o gymorth ag y bo modd i ffermwyr drwy'r adeg. Gofynnodd Rachel a yw Swyddogion yn cynnal asesiad gweledol o berygl llygredd fel llwybrau i ddyfrffyrdd yn ystod ymweliadau. Dylai'r rheoliad hwn fod yn gysylltiedig â chanlyniadau, ond mae'n llawer mwy cymhleth a chynnil. Os oes gennym ddiddordeb gwirioneddol mewn canlyniadau, yna siawns nad yw'n bwysig deall y risg wirioneddol o lygredd – er enghraifft a oes llwybr i ddyfrffordd gyfagos, a oes risg o lygredd gweladwy ac ati. Dywedodd Nicola fod Swyddogion yn gweithio gyda'r Tîm Geowyddoniaeth i edrych ar fregusrwydd dŵr daear, adolygu'r ardal o amgylch y clamp (e.e. craig, math o bridd, agosrwydd at gwrs dŵr ac ati) ac yna asesu'r risgiau.

24. Soniodd Rachel am y £52 miliwn y mae LlC wedi'i fuddsoddi ers cyflwyno'r rheoliadau a chyfeiriodd LlC at yr asesiad effaith a nododd mai £360 miliwn oedd y buddsoddiad gofynnol. Gofynnodd Rachel a all LlC ddarparu dadansoddiad o'r holl gynlluniau a'r ffenestri y dyrannwyd y £52 miliwn hwnnw iddynt. Mae gan fwyafrif llethol y cynlluniau grant hyn gyfradd ymyrraeth o 40%, ac mae ffermwyr yn gorfod dod o hyd i'r 60% arall, sy'n anodd iawn yn y cyd-destun ariannol presennol. O ran dadansoddiad o gynlluniau a'r cyllid sydd wedi bod ar gael drwy'r rheiny, dywedodd Andrew y byddai'n hapus i fynd â hynny yn ôl a darparu gwybodaeth.

***Pwynt Gweithredu 21 Hydref 04: Andrew Chambers, Llywodraeth Cymru i ddarparu gwybodaeth am ddadansoddiad o'r holl gynlluniau a'r ffenestri y dyrannwyd y £52 miliwn hwnnw iddynt.***

25. Croesawodd Rachel eglurder LlC hefyd ar drawsgydymffurfiad gan fod llawer iawn o ddryswch o ganlyniad i'r datganiad a'r newidiadau diweddar. Yn benodol, mae angen cadarnhad nad yw'r rheoliadau wedi newid, ac mae'r cyfnodau caeedig yn dal i fodoli - mae'r rheoliadau hyn yn gymhleth. O ran y cyfathrebu ynghylch newidiadau i drawsgydymffurfiad, cydnabu Andrew ei bod yn hanfodol bwysig ein bod yn cyfleu hyn yn iawn. Nododd Andrew ei fod wedi gweld rhai pethau yn y wasg sy'n awgrymu esemptiad cyffredinol bron, sy'n peri pryder mawr, ac yn amlwg nid ydym am i ffermwyr gael eu camarwain. Atgoffodd Andrew y grŵp bod angen i ni gofio cyd-destun y £360 miliwn.

26. Soniodd David ei fod yn rhoi sgwrs i ffermwyr yng Ngorllewin Cymru yr wythnos nesaf am y rheoliadau hyn a gofynnodd a fyddai'n briodol defnyddio'r wybodaeth yn yr adroddiad a hyd yn oed rhai o'r sleidiau i ddangos y meysydd o ddiffyg cydymffurfio cyffredin. Cadarnhaodd Nicola ac Iwan y gallai'r wybodaeth gael ei rhannu.

***Pwynt Gweithredu 21 Hydref 05: Bronwen Martin, CNC i rannu copi o'r cyflwyniad gan Nicola Mills, CNC ar waith Tîm CoAPR.***

## Eitem 4. Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021: Adolygiad 4 blynedd

27. Roedd Dr Susannah Bolton (Cadeirydd Annibynnol yr Adolygiad) yn ddiolchgar am y cyfle i ymgysylltu â'r grŵp ynghylch proses adolygu 4 blynedd Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021.

28. Fe wnaeth Susannah ailgrynhoi’r dull o ymdrin â'r adolygiad - mae hyn yn ymwneud yn bennaf ag effeithiolrwydd y rheoliadau mewn perthynas â mynd i'r afael â llygredd dŵr. Bydd angen cwblhau'r adolygiad erbyn diwedd mis Mawrth 2025.

29. Dywedodd Susannah ei bod yn awyddus i gwrdd â chymaint o randdeiliaid ag sydd bosibl er mwyn deall y sail dystiolaeth bresennol ac i wrando ar sylwadau. Mae rhai cyfarfodydd cychwynnol eisoes wedi'u cynnal gyda'r undebau ffermio, Cymdeithas Genedlaethol y Contractwyr Amaethyddol a sefydliadau'r gadwyn gyflenwi. Mae gan Susannah ddiddordeb hefyd mewn cyfarfod â sefydliadau amgylcheddol.

30. Ailadroddodd Susannah rai pwyntiau allweddol ynglŷn â'r adolygiad:

- Effeithiolrwydd y rheoliadau – cymryd dealltwriaeth eang o'r hyn y mae 'effeithiolrwydd' yn ei olygu mewn gwirionedd, o ran llygredd dŵr, ond hefyd effeithiolrwydd pan gânt eu defnyddio a pha mor ddefnyddiol y maent wedi bod wrth ysgogi newid.
- Effaith – yn ehangach, mewn perthynas â Dyletswydd Rheoli Tir Cynaliadwy Llywodraeth Cymru o'r Ddeddf Amaethyddiaeth, ond hefyd gan edrych ar Genedlaethau'r Dyfodol a rhwymedigaethau statudol a rhyngwladol amgylcheddol.
- Adolygu'r mesurau amgen - mae wedi bod yn ddiddorol iawn darllen a deall y rhain a'r gwaith sydd eisoes wedi cael ei wneud yn meddwl am ddewisiadau amgen.
- Y ffordd y mae'r Rheoliadau Llygredd Amaethyddol yn cydfynd â rheoliadau amgylcheddol ehangach a'r amgylchedd rheoleiddio lle mae'n gweithredu ac yn deall y cysylltiadau hynny a chyfnewidiadau posibl.

31. Diolchodd Creighton i Susannah am y cyfle i Cyswllt Amgylchedd Cymru (WEL) gwrdd â hi i drafod yr adolygiad. Cynigiodd Creighton arweiniad trwy gyfeirio at Reoliad 6 sydd mewn perthynas â gwasgaru tail organig neu slyri ar dir amaethyddol ar gyfer yr angen am gnydau. Roedd Creighton yn cofio cyfweliad teledu diweddar gyda ffermwr mewn perthynas â gweithredu'r cyfnod caeedig. Soniodd y ffermwr am yr angen i 'gael gwared' o'i slyri - fodd bynnag, mae WEL yn pryderu bod pobl yn dal i sôn am gael gwared ar slyri pan fo Rheoliad 6 yn ymwneud â’r angen am gnydau. I ddechrau, roedd pobl yn dweud ei fod yn faetholyn gwerthfawr ac na fyddai unrhyw ffermwr eisiau ei wastraffu ond rydym yn aml yn cael ein hatgoffa nad oes angen y cnwd ar lawer o ffermwyr, a’i fod yn hytrach yn fater o gael gwared ar eu slyri gan fod llawer gormod ohono ar gyfer y màs tir sydd ar gael.

32. Holodd Fraser McAuley, CLA ynglŷn â fframiau amser a'r camau nesaf. Dywedodd Susannah nad ymgynghoriad ffurfiol yw hwn, ond ei bod yn bwriadu treulio cymaint o amser [ag oedd ei angen??] dros y misoedd nesaf yn casglu ac yn gwrando ar sylwadau fel bod y sail dystiolaeth mor eang ac effeithiol ag y gall fod wrth gyfarwyddo'r ymateb i'r adolygiad. Bydd angen i ni ddechrau paratoi'r adroddiad yn fuan a chael drafft cynnar ym mis Ionawr 2025.

33. Gofynnodd Gareth a allai Susannah roi eglurder ynghylch rhai dyddiadau cyfarfod a sut mae hi'n rhagweld y gwaith o gynnal cyfarfodydd yn y dyfodol (e.e. drwy Is-Grŵp WLMF, grŵp ar wahân neu gyda rhanddeiliaid unigol). Croesawodd UAC y cyfarfod cychwynnol ychydig wythnosau yn ôl i drafod rhai pwyntiau ynghylch yr adolygiad hwn. Dywedodd Susannah ei bod yn dibynnu ar gydweithwyr Llywodraeth Cymru i sicrhau bod croestoriad da o gyfarfodydd yn cael eu trefnu. Dywedodd Andrew y dylai'r rhai nad ydynt eisoes wedi siarad â Susannah ddisgwyl clywed ganddi cyn bo hir i gadarnhau rhai dyddiadau ychwanegol. Soniodd Andrew am y bwriad i wneud rhywbeth ar yr adolygiad yn y Ffair Aeaf, ond mae'r manylion yn dal i gael eu cwblhau - gallai hyn fod yn sesiwn ymgysylltu bwysig i randdeiliaid. Atgoffodd Susannah y grŵp o'r her o gael llawer o bartïon â diddordeb sy'n gwneud rheoli hyn yn effeithiol o fewn y ffrâm amser yn anodd iawn. Mae rhai cyfarfodydd gwirioneddol werthfawr eisoes wedi'u cynnal. Bydd yr adolygiad yn cael ei gyfarwyddo gan yr holl gyfarfodydd hynny.

34. Heriodd Gareth y sylwadau cynharach a wnaed gan Creighton a dywedodd ar hyn o bryd fod y diwydiant mewn sefyllfa lle roedd ffermwyr yn cael eu gorfodi i waredu slyri cyn y cyfnod caeedig - hyd yn oed y rhai sydd â'r gofynion storio yn eu lle. Roedd Gareth yn cydnabod Rheoliad 6, ond awgrymodd nad yw'r rheoliadau yn eu ffurf

bresennol yn ystyried y ffaith bod yr angen am gnydau yn newid a bod glaswellt yn tyfu am gyfnod llawer hirach oherwydd y newid yn yr hinsawdd (e.e. mae cnwd silwair hwyr yn gwthio'r tymor tyfu yn ei flaen, glaswellt yn tyfu trwy gydol y flwyddyn mewn rhai rhannau o Gymru ac ati).

35. Cyflwynodd Sarah Jones, Dŵr Cymru, ei hun a chynnig cyfle i Susannah siarad â Dŵr Cymru i gael adborth o safbwynt diwydiant dŵr (e.e. Timau Dalgylch Dŵr Yfed, Timau Biosolidau ac ati). Mae Dŵr Cymru yn edrych ar ansawdd dŵr o safbwynt dŵr yfed i wasanaethu ein cwsmeriaid a allai hefyd gysylltu â'r effeithiau ar agweddau economaidd a chymdeithasol y rheoliadau.

36. Dywedodd Susannah fod sail dystiolaeth sylweddol wedi'i chasglu gan CNC a gofynnodd a oes gan unrhyw sefydliad arall ddata neu dystiolaeth sy'n bodoli eisoes y maen nhw'n credu fyddai'n berthnasol i'r adolygiad. Esboniodd Susannah y bydd fformat yr adroddiad yn cynnwys dadansoddiad o'r dystiolaeth ac yna bydd y manylion yn cael eu cynnwys mewn pecyn tystiolaeth cysylltiedig. Bydd angen i'r adroddiad fod mewn fformat hygyrch a darllenadwy a bydd pecyn tystiolaeth ar wahân yn cael ei ddarparu ochr yn ochr ag ef. Gofynnodd Sarah Jones a ddylai'r data a'r dystiolaeth y gofynnwyd amdanynt fod yn ansoddol, yn feintiol neu'r ddau. Esboniodd Susannah fod ganddi fwy o ddiddordeb mewn tystiolaeth fel y cyfryw, a dylai hynny gynnwys tystiolaeth ansoddol hefyd.

37. Soniodd Rachel fod gan NFU Cymru arolwg byw ar hyn o bryd i ffermwyr fwydo eu barn ar y rheoliadau. Mae wedi ennyn llawer o ddiddordeb, a hoffem iddo gael ei ddefnyddio fel tystiolaeth ar gyfer yr adolygiad. Gofynnodd Rachel a oedd dyddiad cau i ddarparu tystiolaeth oherwydd na fyddent eisiau colli'r cyfle i fwydo gwybodaeth gan gannoedd o ffermwyr. Gofynnodd Susannah am ddyddiad cau'r arolwg. Dywedodd Rachel eu bod yn hyblyg gan ei fod yn cael ei redeg gan gydweithwyr NFU yn Stoneleigh - maen nhw'n ystyried ei gau ddiwedd y mis hwn. Awgrymodd Rachel y gellid anfon canfyddiadau at Susannah ym mis Tachwedd, os yw hynny'n rhesymol. Dywedodd Susannah y byddai mis Tachwedd yn ddefnyddiol iawn gan y bydd y pecyn tystiolaeth yn cael ei gasglu erbyn diwedd mis Tachwedd. Fodd bynnag, ni fyddwn yn diystyru unrhyw beth a fydd yn cael ei dderbyn ddechrau mis Rhagfyr, ond bydd y dyddiad cau ar y gorwel.

38. Nododd David y bydd yr adolygiad yn edrych ar yr economi a [materion] cymdeithasol a gofynnodd a fydd hefyd yn edrych ar y rheoliadau gwirioneddol. Roedd sylwadau cynharach yn cyfeirio at agweddau ffermwyr yn dweud fod angen iddyn nhw gael gwared ar slyri oherwydd rhai cyfyngiadau sy'n cael eu gosod arnyn nhw. Fodd bynnag, rhaid bod tystiolaeth a arweiniodd at y cyfnodau caeedig, ac efallai y bydd tystiolaeth fwy newydd yn awgrymu bod twf glaswellt bellach ychydig yn wahanol i'r hyn yr arferai fod. Gofynnodd David a yw Susannah yn gallu cynnwys tystiolaeth a allai awgrymu y gallai'r cyfnodau cau gael eu disodli gan ryw ddull arall o asesu pa un a yw gwasgaru slyri, er enghraifft, yn briodol ai peidio. Dywedodd Susannah fod y ffordd y mae'r rheoliadau'n cael eu gweithredu, yn rhywbeth a fydd yn cael ei ystyried fel rhan o'r adolygiad. Un o amcanion yr adolygiad yw edrych ar y mesurau amgen arfaethedig a byddwn hefyd yn ystyried a oes tystiolaeth newydd i gefnogi'r mesurau amgen arfaethedig.

39. Soniodd Dennis fod Llywodraeth Cymru wedi bod yn rhan o'r Is-Grŵp ers iddo gael ei ffurfio a'u bod yn ymwybodol iawn o'r problemau sy'n wynebu ffermwyr tenant ar unrhyw reoliadau sy'n cynnwys adeiladu strwythur newydd ac ati. Nododd Dennis y

ffigurau o'r cyflwyniad cynharach a oedd yn ymwneud â nifer fechan o ffermwyr tenant nad oeddent yn cydymffurfio, o gymharu â chyfanswm y nifer. Byddai TFA Cymru yn croesawu sgwrs gyda Susannah ynglŷn â'r adolygiad, mae'n bwysig bod pryderon yn cael eu clywed a'u hystyried. Dywedodd Dennis fod yr amserlen ar gyfer yr adolygiad yn dynn iawn ac awgrymodd mai amserlen fwy realistig fyddai cwblhau'r adroddiad ym mis Ebrill 2025. Dywedodd Susannah ei bod yn edrych ymlaen at drefnu cyfarfod gyda Dennis. Dywedodd Susannah yr hoffai pe byddai mwy o amser ond ei bod yn hyderus y gellir ei gyflawni.

40. Crybwyllodd Susannah fod cyfarfod gwerthfawr iawn wedi ei gynnal gyda CNC yn ddiweddar. Dywedodd Nichola Salter ei bod wedi cael y dasg o gasglu tystiolaeth CNC gan gynnwys data yn ymwneud â'r Adolygiad Maetholion, Prosiect Afonydd ACA, data ansawdd dŵr y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, ystadegau llygredd ac ati. Mae Nichola hefyd yn casglu gwybodaeth gan gydweithwyr mewn Timau Gweithredol, Rheoli Timau Llygredd Amaethyddol, cydweithwyr polisi ac eraill ar draws y sefydliad. Bydd hyn hefyd yn cynnwys gwybodaeth anecdotaidd am weithredu a gorfodi'r rheoliadau.

41. Trafododd Susannah ddeall y mathau o ddata y byddant yn edrych arno. Mae'n anodd cyffredinoli Cymru gyfan gan ddefnyddio data meintiol ac oherwydd y dull gweithredu fesul cam, bydd rhai cyfyngiadau eithaf difrifol. Mae gan Susannah ddiddordeb hefyd mewn astudiaethau achos posibl neu ddalgylchoedd astudiaeth achos sy'n rhoi syniad o'r hyn a allai fod yn bosibl (e.e. tystiolaeth gyfredol o arfer da, ffermwyr yn gwneud gwahaniaeth drwy weithredu cymunedol cydweithredol neu weithio gyda chyrff amgylcheddol). Byddai'r mathau hyn o astudiaethau achos yn addysgiadol iawn ac yn gofyn i'r grŵp rannu unrhyw enghreifftiau i Susannah eu harchwilio.

***Pwynt Gweithredu 21 Hydref 06: Y grŵp i rannu enghreifftiau gyda Dr Susannah Bolton o astudiaethau achos sy’n ymwneud ag arfer da, prosiectau cydweithredol, gweithredu cymunedol neu ffermwyr sy'n gweithio gyda sefydliadau amgylcheddol ac ati.***

42. Dywedodd Susannah ei bod hefyd yn awyddus i fynd allan ar y fferm hefyd a dylai hyn hefyd ategu'r ddealltwriaeth astudiaeth achos fwy penodol.

43. Soniodd Creighton fod yr Asesydd Amgylcheddol Dros Dro yn cyfyngu ar ei harchwiliad mewn perthynas ag amaethyddiaeth o achos yr adolygiad hwn. Fodd bynnag, mae un arall o'i bryderon yn ymwneud â thyfu porthiant, yn enwedig tyfu india-corn yn Ne Orllewin Cymru o fewn y gwregys llaeth dwys. Gofynnodd Creighton a fydd yr adolygiad yn ystyried tystiolaeth ynglŷn â thyfu porthiant i'r diwydiant llaeth gan fod problemau yn ymwneud ag india-corn a'r diffyg gorchudd daear yn y gaeaf. Dywedodd Susannah fod hwn yn gwestiwn anodd oherwydd bod rhai agweddau sydd y tu allan i gwmpas yr adolygiad. Dywedodd Susanna fod ganddi ddiddordeb mewn tynnu sylw at ble mae cysylltiadau a chysylltiadau pwysig ond o ran y cwestiwn penodol hwnnw, byddai angen ei wirio gyda golwg ar y rheoliadau. Dywedodd Matthew Walters, Llywodraeth Cymru o ran colli pridd a cholli pridd fel rhywbeth oedd yn cyfrannu at ddifrod amgylcheddol, yna byddai gweithredu colli pridd a'r hyn allai arwain at hynny yn rhan o'r adolygiad. Ni fyddem yn edrych yn gyfan gwbl ar sector penodol sy’n cyflawni gweithgaredd/proses benodol. Er enghraifft, os yw cnydau gorchudd yn rhywbeth y gallem neu y dylem eu hystyried, mae'n rhywbeth y gallem edrych arno yn yr adolygiad. Felly, byddai gennym fwy o ddiddordeb yn y canlyniad o beidio â chael cnydau gorchudd a gorchudd caeau a'r posibilrwydd o golli pridd fel cyfrwng ar gyfer llygredd, yn hytrach na bod yn gysylltiedig â sector penodol sy'n gwneud math penodol o

weithgaredd. Dywedodd Creighton mai ei bryder yw y gallai'r mater hwn fynd yn angof a pheidio â chael ei archwilio naill ai gan yr adolygiad hwn neu gan yr Asesydd Dros Dro.

44. Awgrymodd Gareth y dylem i gyd fod yn ymwybodol o'r ffaith bod llawer iawn o waith yn digwydd yn y cefndir, ochr yn ochr â'r adolygiad hwn, yn enwedig o ran datblygu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS). Mae rhai camau gweithredu o fewn yr SFS a fydd yn ategu gwaith rheoli maetholion o fewn y darlun ehangach. Mae'r SFS yn mynd i fod yn newid enfawr i'r diwydiant ac mae'n ddi-os y bydd rhai buddion mewn perthynas â gwybodaeth o ran arferion ffermio ehangach. Dywedodd Creighton fod Afonydd Cymru wedi siarad gyda ffermwyr llaeth mewn perthynas â'r SFS ac yn pryderu na fydd cyfran fawr ohonyn nhw (yn sicr yn yr ardal yma) yn ymuno â'r SFS - yn y pen draw, mae'n gynllun gwirfoddol. Mae risg y bydd sector sylweddol yn defnyddio arferion a allai achosi mwy o lygredd, a allai hefyd wedyn achosi llifogydd a phroblemau eraill. Gofynnodd Creighton i Susannah ystyried y pryderon hyn. Cyfeiriodd Rachel at bwyntiau Crieghton a dywedodd na allwn ddod i'r casgliad hwnnw eto - mae llawer o waith wedi bod yn digwydd dros yr haf ac i mewn i'r hydref ar ddatblygu'r SFS. Nid yw'r cynigion diwygiedig ar gyfer yr SFS yn y parth cyhoeddus ar hyn o bryd ac felly, nid yw ffermwyr mewn sefyllfa i farnu a ydynt yn ddeniadol a ph'un a yw'n ymarferol iddynt ymuno ai peidio. Mae'n bwysig cofio bod sylwadau cynharach a wnaed gan ffermwyr yn seiliedig ar gynigion blaenorol. Mae llawer o waith wedi'i wneud i adolygu'r cynigion hynny ar lefel Weinidogol o fewn trafodaethau'r Ford Gron.

45. Croesawodd Nicola Mills Susannah i ymuno â CNC ar ymweliad ac awgrymodd y gallai hyn roi rhywfaint o eglurder ynghylch pethau ar lawr gwlad. Gallwn drefnu i chi ymweld â chwpl o ffermydd un diwrnod.

46. Cydnabu David bryderon ynghylch llygredd mewn afonydd, yn enwedig oherwydd ffosffadau a gwaddodion. Fodd bynnag, sefydlwyd a dyluniwyd y rheoliadau i fynd i'r afael â llygredd nitradau, nid ydynt yn sôn llawer am fesurau i helpu gyda llygredd ffosffadau neu elifion o gaeau. Dywedodd Creighton bod hynny'n atgyfnerthu ei bwynt bod yna bosibilrwydd y bydd materion fel hyn yn cael eu hanghofio. Yn ôl Andrew, er bod y rheoliadau'n pwyso tuag at nitradau, maent wedi'u cynllunio i atal a lleihau llygredd i ddŵr waeth beth fo'r maetholyn ac i gyflawni yn erbyn ystod ehangach o rwymedigaethau sy'n deillio o ofynion statudol neu rwymedigaethau rhyngwladol sy'n llawer ehangach na nitradau yn unig. Soniodd David fod gan Asiantaeth yr Amgylchedd (EA) yn Lloegr ymagwedd lem iawn, yn enwedig yn y de orllewin lle mae ffermwyr yn tyfu cnydau risg uchel ar briddoedd risg uchel - mae'r EA wedi dweud os gwnewch chi hynny, yna gallwch ddisgwyl ymweliad. Ond mae hyn mewn perthynas â'r Rheolau Ffermio ar gyfer Dŵr, sydd ond yn berthnasol yn Lloegr.

47. Gofynnodd Suzannah i'r grŵp am bethau heblaw nitradau. Mewn rhai achosion, ystyrir bod y rheoliad yn estyniad o Barthau Perygl Nitradau (NVZ) ond nid dyna'r bwriad y tu ôl i'r rheoliad, mae'n ehangach na hynny. Roedd Susannah eisiau meddyliau'r grŵp ar hyn a ph'un a oeddent yn ymwybodol o unrhyw dystiolaeth ansoddol a meintiol a allai fod ar gael (e.e. dealltwriaeth o weithredu'r rheoliadau, barn pobl amdanynt ac ati).

48. Dywedodd Gareth fod cael data cadarn fel sail i'r adolygiad hwn yn hanfodol ar gyfer yr holl lygryddion. Mae FUW yn croesawu'r ffaith y cydnabyddir cyfyngiadau i'r sylfaen ddata gyfredol i bennu effeithiolrwydd y rheoliadau yn eu ffurf bresennol. Mae'r grŵp hwn wedi trafod y defnydd o fodelu yn flaenorol, yn enwedig o ran cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â rhagfynegiadau a rhagdybiaethau. Mae'r ffordd rydym yn edrych ar

wahanol lygryddion yn cael effaith uniongyrchol ar y ffordd rydym yn edrych ar effeithiau cymdeithasol ac economaidd y rheoliadau hyn. Mae'n amlwg nad yw'r rheoliadau hyn yn cael eu hystyried yn rheoliadau sy’n cyfyngu ar gynhyrchu neu’n lleihau nifer y da byw, ond mewn gwirionedd, dyna ydynt mewn rhai achosion. Er enghraifft, mae'r terfyn dal nitrogen o 170 kg / ha i bob pwrpas yn gosod ffactor cyfraddau stocio ar ffermydd sy'n agos neu'n uwch na'r terfyn presennol hwnnw. Mae gwir angen i ni fod yn ofalus ynghylch sut mae'r adolygiad yn cael ei ystyried yn y maes hwnnw. Dywedodd Susannah ei bod yn awyddus iawn i ddeall yn iawn yr effeithiau cymdeithasol ac economaidd a darparu ymateb yn yr adroddiad ynghylch yr effeithiau posibl (cadarnhaol a negyddol) ar fusnesau fferm a'r cadwyni cyflenwi.

49. Atgoffodd Rachel y grŵp bod ymrwymiad o dan gytundeb cydweithredu Plaid Cymru sydd wedi cael ei ategu ers hynny, y byddai Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA) yn cael ei gynnal ar gyfer y terfyn 170 kg / ha. Gofynnodd Rachel am y wybodaeth ddiweddaraf am y broses hon. Dywedodd Andrew fod gwaith ar yr RIA ar y gweill. Mae disgwyl y canlyniad ganol mis Tachwedd a bydd hwnnw ar gael fel rhan o'r adolygiad. Gofynnodd Rachel hefyd a yw'r Cylch Gorchwyl ar gyfer yr adolygiad wedi'i gyhoeddi. Dywedodd Andrew eu bod yn y broses o gwblhau'r ddogfen ac y bydd yn cael ei chyhoeddi ar-lein yn fuan. Dywedodd Rachel bod yr asesiadau effaith drafft wedi'u rhannu â rhanddeiliaid i ystyried y rhesymeg a'r dull methodoleg a fabwysiadwyd. Gofynnodd Rachel a oedd proses debyg wedi'i chynllunio ar gyfer yr RIA. Dywedodd Andrew fod yr amserlen yn heriol, felly o ran bwydo'n ôl cyn i'r gwaith hwnnw gael ei gwblhau, byddai hynny'n rhy anodd. Bwriad Llywodraeth Cymru yw cyhoeddi'r RIA fel rhan o'r pecyn tystiolaeth ochr yn ochr â'r adolygiad a byddent yn croesawu unrhyw sylwadau yn dilyn hynny.

50. Gofynnodd David a fyddai'n gallu dweud unrhyw beth am y terfyn 170kg/ha yr wythnos nesaf pan fydd yn mynychu'r cyfarfodydd ffermwyr – dim ond am flwyddyn oedd y Dull Rheoli Maethynnau Uwch (ENMA) felly a yw LlC yn awgrymu i ffermwyr eu bod yn mynd yn ôl i'r rheol 170kg/ha neu a yw'n cael ei adolygu. Meddai Andrew, fel y mae'r rheoliadau ar hyn o bryd, bydd y rheol 170 kg/ha yn dod i rym ar gyfer pob fferm o fis Ionawr 2025. Dim ond 9 fferm a fabwysiadodd yr ENMA, felly mewn theori dylai hynny effeithio ar y 9 fferm hynny yn unig. Rydym yn cydnabod bod rhai anawsterau a phryderon ynghylch y terfyn 170kg/ha, ac mae'r rhain wedi'u codi eto a byddant yn cael eu hystyried fel rhan o'r adolygiad.

51. Soniodd David am gyflwyniad yng Ngogledd Cymru ynglŷn â'r ENMA a'r consensws cyffredinol gan ffermwyr oedd yn bresennol oedd bod hysbysu yn rhy gymhleth. Cydnabu Susannah yr adborth hwn a dywedodd ei bod yn bwysig i'r adolygiad gydnabod y rhwystrau i gefnogaeth a chymhellion posibl. Cytunodd Gareth gyda chymhlethdod y broses honno, ond dywedodd ei fod yn cael ei groesawu am ei fod yn rhoi cymorth i'r rhai oedd ei angen. Roedd Gareth yn pryderu bod llawer mwy na 9 fferm yng Nghymru oedd ei angen ond nid oedd yn synnu bod cyn lleied wedi hysbysu oherwydd cymhlethdod y broses. Mae ffermwyr yn dal i ddod i delerau â'r hyn sy'n ofynnol ganddynt. Gofynnodd Gareth i Lywodraeth Cymru ystyried estyniad ar gyfer yr ENMA ar gyfer y 9 fferm sydd wedi bod yn gweithredu oddi tano, yn enwedig er mwyn gallu cwblhau'r adolygiad. Y gobaith yw y bydd hyn hefyd yn cael ei ystyried fel rhan o'r adolygiad ehangach, neu fel arall bydd yn rhoi'r ffermydd hynny mewn sefyllfa ddifrifol o anodd lle gallent orfod lleihau nifer eu stoc yn sylweddol erbyn diwedd y flwyddyn. Dywedodd Andrew ei fod yn heriol iawn gan nad ydym am arwain ffermwyr i mewn i sefyllfa o feddwl y bydd rhywbeth yn bendant yn dod allan o'r adolygiad. Mae heriau mewn perthynas â hyn, ond mae amser iddynt gynllunio i wneud yn siŵr nad ydynt yn mynd uwchlaw'r terfyn 170kg/ha erbyn diwedd y flwyddyn. Soniodd Gareth y bydd y

cynhyrchiant yn isel dros y gaeaf o safbwynt contractau llaeth, ond o fis Ebrill ymlaen (pan fydd twf glaswellt ar ei uchaf a bydd y rhan fwyaf o dda byw yn mynd allan i bori), bydd yn llawer haws rheoli cynhyrchu llaeth i gynnal eu contractau nag y byddai ym mis Rhagfyr. Awgrymodd Gareth fod rhai pethau ymarferol y dylid eu hystyried, ac efallai bod angen trafodaeth all-lein rhwng FUW a LlC.

52. Diolchodd Susannah i'r grŵp am y drafodaeth wirioneddol werthfawr a diddorol hon. Cymerwyd nodiadau a bydd Susannah yn cysylltu gydag aelodau.

## Eitem 5. Unrhyw Fater Arall

53. Soniodd Dennis fod TFA yn brysur iawn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar ddatblygu'r SFS i sicrhau bod ffermwyr tenant yn cael mynediad llawn i'r cynllun.

54. Cynhelir y cyfarfod nesaf ddydd Llun 18 Tachwedd 2024.

55. Ni chodwyd unrhyw faterion ychwanegol.